No.

# PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 17 Mawrth, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, G.A. Cox, R. Crowley, V.P. Driscoll, G. John, Dr. I.J. Johnson, S. Sivagnanam a J.W. Thomas

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio) a P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth).

985 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

986 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr, 2022 a 17 Chwefror, 2022 fel cofnod cywir.

987 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganwyd buddiant gan y Cynghorydd G. John ar eitem 10 ar yr agenda (Cyngor Bro Morgannwg – Ffioedd a Thaliadau Arfaethedig ar gyfer 2022/23) gan fod ganddo oddefiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad yn unig yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg lle trafodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â ffioedd a thaliadau pêl-droed / chwaraeon (Paragraffau (d) ac (f)).

988 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2021/22 (PW) –

Pwrpas yr adroddiad, fel y'i cyflwynwyd gan y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes, oedd amlinellu canlyniadau perfformiad chwarter 3 am y cyfnod 1 Ebrill 2021 hyd 31 Rhagfyr 2021 wrth gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 yn unol ag Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol. Rhoddodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes amlinelliad o brif bwyntiau'r

adroddiad i'r Pwyllgor, gyda phwyslais ar y meysydd hynny a oedd o fewn cwmpas cyfrifoldeb y Pwyllgor hwn:

- Roedd cynnydd cadarnhaol wedi'i sicrhau o ran cyflawni'r ymrwymiadau yn ystod y flwyddyn yn gysylltiedig â'r Cynllun Cyflawni Blynyddol (2021/22). Roedd y perfformiad wedi cyfrannu at statws GWYRDD cyffredinol ar gyfer y Cynllun yn chwarter 3 (Ch3).
- Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth grynodeb o'r cyflawniadau wedi'u trefnu o dan y pedwar Amcan Llesiant.
- Roedd mwyafrif y camau a'r mesurau'n gysylltiedig â'r Pwyllgor yn dangos sgôr CAG 'Gwyrdd', gyda 14 o gamau a 7 mesur wedi llithro i'r 'Coch'. Roedd hi'n fwyfwy tebygol bod y llithriant hwnnw'n deillio o resymau nad oeddent yn ymwneud â Covid-19, a'u bod yn adlewyrchu'r cyfnod yn y pandemig yr oedd y Fro ynddo bellach.
- Yn dilyn yr uchod, roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol, ac a oedd o fewn cwmpas y Pwyllgor, unwaith eto o dan y pedwar Amcan Llesiant, ac a oedd yn cynnwys cynnydd o ran ailddatblygu a gwella hygyrchedd a phrofiadau defnyddwyr wrth ddefnyddio gwefan y Cyngor, ailwampio C1V, adolygu absenoldebau staff, a mwy o ymgysylltiad â staff a grwpiau allweddol yn allanol, hy, â phlant, pobl ifanc a theuluoedd (gan gynnwys rhai â nodweddion gwarchodedig). Yn ogystal â mynd i'r afael â datgarboneiddio mewn ysgolion, llwyfannau gwell i gyflwyno dull newydd o gefnogi datblygiad a llesiant staff, ymgysylltu â rhanddeiliaid yn sail i adolygu modelau darparu gwasanaeth i'r dyfodol ym maes gofal cymdeithasol, ystyried datblygu strategaeth i hybu'r defnydd o systemau draenio cynaliadwy a threfniadau i'w hôl-osod, diwygio'r strategaeth rheoli perygl llifogydd a symud ymlaen i fersiwn nesaf y Blaengynllun Gwaith Bioamrywiaeth, gan gydnabod y datganiad ynghylch yr Argyfwng Natur.
- Yn nhermau'r Diweddaraf wrth Adfer ar ôl y Coronafeirws, cyfeiriwyd at ad-drefnu'r Uwch Dîm Arwain (UDA) i adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd yn sgil y pandemig, estyn oriau agor y Swyddfeydd Dinesig, y Dderbynfa, cefnogaeth barhaus gan y Cyngor i Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro (yn nhermau darparu ein heiddo, cefnogaeth drwy sianelau cyfathrebu ar gyfer ystod o wahanol ymatebion i'r pandemig, a thrwy'r Tîm Rheoli Digwyddiadau), yn ogystal â bwrw mlaen a'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau, sydd wedi parhau i ganlyn blaenoriaethau strategaeth adfer y Cyngor gan gyfuno'r rheiny â'r Cynllun Cyflawni Blynyddol hefyd.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- Cododd y Cynghorydd Dr. Johnson y sylwadau / yr ymholiadau canlynol:
    - Bod rhai enghreifftiau o fuddsoddiad yn cael eu fframio fel llwyddiannau yn ystod chwarter tri, hy y gwaith a wnaed ar siop yn Heol Holton a gosod boeler newydd yng Nghanolfan Chwaraeon Colcot. Er eu bod yn cyfrif fel llwyddiannau graddfa fach a chanlyniadau cadarnhaol yn eu hawl eu hunain, efallai mai ond gwelliannau rhannol yr oeddent, heb eu gwireddu'n llawn, ac nad oeddent yn rhoi cyd-destun a chefndir llawn y mesurau hyn. Yn

achos y siop ar Heol Holton, er ei bod yn edrych yn well o'r tu allan, roedd y siop e hun yn dal i fod yn wag; ac o ran Canolfan Chwaraeon Colcot, roedd y gwelliant wedi dod yn dilyn blynyddoedd lawer o ddiffyg buddsoddi yn y cyfleuster.

  - O ran y materion cyfredol sy'n ymwneud â recriwtio i'r Cydwasanaethau Rheoleiddio (CRh) a'r sail resymegol wrth wraidd hyn, esboniwyd bod heriau'n gysylltiedig â recriwtio, fel prinder ymgeiswyr am rolau arbenigol mewn meysydd fel iechyd yr amgylchedd, a oedd hefyd i'w weld ar raddfa genedlaethol a thu hwnt.  Fodd bynnag, roedd mesurau ar waith i liniaru'r rhain ac i wella cyfleoedd recriwtio, hy, drafftio 'Strategaeth Ddenu' i ddenu, cadw a recriwtio unigolion (gan gynnwys cynyddu'r defnydd o brentisiaethau) a chynyddu'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, hy, LinkedIn, a oedd wedi esgor ar rai canlyniadau cadarnhaol wrth hysbysebu i ddibenion recriwtio.  Byddai rhagor o fanylion yn cael eu darparu i'r Pwyllgor pan fyddent ar gael.
  - O ran y cynnydd y mae'r Rheolwr Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) yn ei wneud ar gyfleoedd i gynnwys, ymgysylltu, a chyfathrebu â phob plentyn, unigolyn ifanc a theulu sy'n defnyddio gwasanaeth y Cyngor (gan gynnwys rhai â nodweddion gwarchodedig), byddai'r Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn gofyn am fanylion pellach.
  - Mewn perthynas â'r diweddaraf ynghylch adolygu adeiladau, enwau strydoedd a chofebau, roedd gwaith pellach wedi'i gyflawni yn dilyn cyfarfod diwethaf y panel, gyda chyfarfod â'r Gwasanaethau Democrataidd i edrych ar y gwaith a gyflawnwyd eisoes, ac i gynnal cyfarfod dilynol o'r panel adolygu i'r diben hwn.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at broblem cyfraddau uwch ar gyfer heintio a derbyn i'r ysbyty ar draws y DU oherwydd COVID-19, a holodd a oedd unrhyw dystiolaeth o'r angen am bedwerydd brechiad / cylch brechu, ac a oedd y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn 'barod' am ymgyrch o'r fath.  Eglurwyd bod y Tîm Rheoli Digwyddiadau (TRhD) yn cyfarfod bob pythefnos a bod Llywodraeth Cymru wedi nodi ein bod bellach mewn sefyllfa o wyro oddi ffwrdd pandemig a thuag at sefyllfa 'endemig' yn gysylltiedig â COVID-19. Byddai'r TRhD yn cadw briff gwylio ar y pandemig, a bu gwelliannau sylweddol mewn gwaith partneriaeth, gyda ffocws cryfach yn gysylltiedig â hyn.  Byddai rhagor o fanylion yn cael eu darparu i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw raglen frechu i'r dyfodol pan fyddent ar gael, a sut y byddai hynny'n cael ei roi ar waith.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau sydd ynddo, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI’R canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 yn unol ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) BOD y camau unioni sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gwaith

y Pwyllgor yn cael eu nodi a bod barn ac argymhellion y Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Cabinet wedi hynny i'w hystyried a'u cymeradwyo, sef:

- Adolygu rhai o'r mesurau perfformiad a'r canlyniadau a ddarparwyd yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol, a oedd, er eu bod yn cyfrif fel llwyddiannau ar raddfa fach a chanlyniadau cadarnhaol yn eu rhinwedd eu hunain, efallai'n welliannau rhannol yn unig ac nad oeddent yn darparu'r cyd-destun a'r cefndir llawn i'r mesurau hyn.
- Bod rhagor o wybodaeth / diweddariadau'n cael eu darparu ar y meysydd canlynol:
    - Recriwtio ar gyfer Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR). Esboniwyd bod heriau o ran recriwtio, ond roedd mesurau ar waith i liniaru'r rhain a gwella cyfleoedd recriwtio. Byddai rhagor o fanylion yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor pan fyddant ar gael.
    - Ar y cynnydd a wnaed gan y Rheolwr Plant sy'n Derbyn Gofal newydd ar gyfleoedd i gynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu â'r holl blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n defnyddio gwasanaeth y Cyngor (gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig). Gofynnir am ragor o fanylion gan y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.
    - Yr adolygiad o enwau adeiladau / strydoedd a henebion.
    - Byddai diweddariad pellach yn cael ei ddarparu ar y gwaith a wnaed ar gyfer hyn, ac i ystyried cynnull cyfarfod o'r panel adolygu at y diben hwn.
    - Yr angen posibl am bedwerydd cylch brechu oherwydd lefelau cynyddol COVID-19. Byddai rhagor o fanylion yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor pan fyddant ar gael.

(3) NODI’R cynnydd sy'n cael ei wneud trwy strategaeth adfer a chynlluniau adfer Cyfarwyddiaethau’r Cyngor mewn ymateb i bandemig parhaus y coronafeirws.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i sicrhau fodloni ein gofynion o ran perfformiad a amlinellir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac sy'n adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan ei fod yn gwneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni'r nodau lles ar gyfer Cymru. Hefyd, i'r Cabinet ystyried sylwadau a safbwyntiau'r Pwyllgor Craffu.

(3) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

989 CYNLLUNIAU GWASANAETH A PHENNU TARGEDAU I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL 2022/23 (PW) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes a esboniodd fod yr adroddiad hwn yn amlinellu cynlluniau a thargedau gwasanaeth y dyfodol a oedd o fewn cwmpas y Pwyllgor Craffu hwn. Mae'r rhain yn nodi'r meysydd ffocws penodol sy'n gysylltiedig â chyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022/2023 fel y bo'n gyson â phedwar Amcan Llesiant y Cynllun Corfforaethol. Datblygodd holl Benaethiaid Gwasanaeth y Cyngor Gynllun Gwasanaeth a ddangosai sut y byddai eu gwasanaeth unigol yn cyfrannu at gyflawni'r ymrwymiadau hynny yn y cynllun corfforaethol, a'r cysylltiadau rhwng hynny a Chynlluniau Cyflawni Blynyddol y blynyddoedd nesaf. Roedd y Cynllun Gwasanaeth hefyd yn disgrifio sut y byddent yn defnyddio'r ystod o adnoddau a oedd ganddynt i gyflawni hynny, ac yn sail ar gyfer monitro ac adrodd ar gynnydd bob chwarter yn y flwyddyn ariannol i ddod.

Roedd yr ymrwymiadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol wedi'u hadlewyrchu yn y Cynlluniau Gwasanaeth sydd ynghlwm yn Atodiad A yr adroddiad, ynghyd â'r targedau gwella gwasanaeth a gynigiwyd ynghlwm yn Atodiad B yr adroddiad, i ddangos sut y byddai meysydd gwasanaeth unigol yn cyfrannu at gyflawni'r ymrwymiadau, ac at gyflawni'r pedwar Amcan Llesiant yn gyffredinol. Roedd Atodiad C yn nodi'r holl weithgareddau cynlluniedig a oedd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn. Roedd gwaith hefyd ar y gweill i ddatblygu cyfres genedlaethol o fesurau perfformiad hunanasesu.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Dr Johnson at y sylwadau yr oedd wedi’u gwneud yn flaenorol mewn perthynas â’r adroddiad hwn y llynedd. Bryd hynny, yr oedd wedi awgrymu, yng ngoleuni’r wybodaeth hynod fanwl a oedd wedi’i chynnwys yn y dogfennau yr oedd yn rhaid i’r Pwyllgor Craffu eu hystyried a’r her o osod targedau yn sgil y pandemig, y byddai’n fwy buddiol pe gallai Aelodau’r Pwyllgor Craffu neu’r Cyngor Llawn dderbyn cyflwyniad ar y pwnc, gan na ellid ystyried hyn yn briodol yng nghyd-destun pwyllgor craffu y unig. Fel enghraifft, cyfeiriodd at gyflwyniadau Rheoli Trysorlys a roddwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn eu cyfarfodydd. Roedd y rhain wedi bod o gymorth iddynt ddeall materion yn llawn fel y gallent drafod pethau mewn modd mwy deallus. Ategwyd y sylwadau uchod gan y Cynghorwyr Sivagnanam, Carroll a'r Cadeirydd, a deimlai y byddai wedi bod yn well naill ai cynnal gweithdy, grŵp gorchwyl a gorffen neu gyfarfod ar wahân i graffu ar yr adroddiad hwn ar ei ben ei hun. Derbyniwyd, fodd bynnag, fod cyfyngiadau ar yr hyn y gellid ei wneud y tu allan i'r fframwaith sydd wedi'i osod ar gyfer craffu, fel sydd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth.
- Ychwanegodd y Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd na fyddai'r dulliau ychwanegol / amgen hyn o graffu a amlinellwyd gan yr Aelodau yn ymarferol ar gyfer y flwyddyn hon oherwydd amserlenni, pwysau gwaith ac ati. Er hynny, yn y dyfodol byddai modd

defnyddio unrhyw un o'r dulliau hyn a'u plethu i'r rhaglen waith fel haen graffu ychwanegol ar yr adroddiad hwn. Gellid wedyn ailgyflwyno'r adroddiad gerbron y Pwyllgor Craffu i ffurfio'r ystyriaethau a'r farn derfynol.

- Awgrymodd y Cynghorydd Dr Johnson, ar ôl yr etholiadau lleol, y dylai'r Gwasanaethau Democrataidd a'r Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes ystyried gofyn i'r cohort newydd o Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion (hy, drwy Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu) i ystyried y ffordd orau o gyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgorau Craffu amrywiol, yn enwedig y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, a edrychai ar bob agwedd ar waith a gwasanaethau'r Cyngor. Cefnogwyd hyn gan y Cadeirydd a'r Pwyllgor.
- Ychwanegodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes y gallai'r darpariaethau hunanasesu o dan Ddeddf Etholiadau Llywodraeth Leol fod yn fan cychwyn i edrych ar yr opsiynau amgen hyn, ac i drafod yr opsiynau i graffu ar yr adroddiad yn y dyfodol gyda Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, ac i sicrhau mwy o ymglymiad gan Aelodau Etholedig yn y gwaith o lunio'r adroddiad. Drwy hynny byddai cyfle i'r Aelodau gymryd rhan yn fanylach yn y broses o'i lunio a'i gyflwyno. Byddai'r gwaith yn dechrau i ystyried sut i weithredu cynigion yr Aelodau yn dechrau ar ôl yr etholiadau lleol.
- Cytunodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth hefyd â'r sylwadau uchod ac awgrymodd i'r Pwyllgor y dylid gofyn hefyd i weinyddiaeth y Cabinet, yn dilyn yr etholiadau lleol, ystyried sut i wella'r trefniadau ar gyfer craffu ar adroddiadau mor fanwl a thechnegol o hyn allan.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau sydd ynddo, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD y Cynlluniau Gwasanaeth (sydd wedi'u hatodi yn Atodiad A i'r adroddiad) a'r holl weithgareddau arfaethedig fel y maent yn ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor hwn (fel y dangosir yn Atodiad C i'r adroddiad) yn cael eu cymeradwyo i'w hystyried gan y Cabinet.

(2) BOD y targedau arfaethedig ar gyfer gwella gwasanaethau ar gyfer 2022/2023 (sydd wedi'u hatodi yn Atodiad B i'r adroddiad) sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor hwn yn cael eu cymeradwyo i'w hystyried gan y Cabinet.

(3) BOD y Cynllun Gwasanaeth a'r Broses o Osod Targedau yn y dyfodol i gyflawni'r Cynllun Cyflawni Blynyddol, y Cabinet a Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu, yn dilyn yr etholiadau lleol, yn ystyried dulliau ychwanegol, ategol o graffu ar y rhain yn fwy effeithiol, megis drwy gyflwyniad, gweithdy pwrpasol neu grŵp gorchwyl a gorffen cyn eu cyflwyno'n derfynol i'r Pwyllgor Craffu.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

(1) Sicrhau bod y Cynlluniau Gwasanaeth sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor hwn yn gywir, yn gyfredol ac yn berthnasol a'u bod yn dod yn brif

ddogfen ar gyfer monitro a mesur perfformiad yn erbyn Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cynllun Corfforaethol yn ystod 2022/2023.

(2) Sicrhau bod Fframwaith Mesur Perfformiad Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi set berthnasol o fesurau a thargedau perfformiad y gellir monitro a mesur y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn eu herbyn yn ystod 2022/2023.

(3) Sicrhau y gellir ystyried y Cynlluniau Gwasanaeth a'r Broses o Bennu Targedau i gyflawni'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn llawn ac mewn modd manylach ac effeithiol.

990 GRYNODEB ARCHWILIO BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2021 (CYF) –

Cyflwynwyd y mater a gyfeiriwyd o'r Cabinet ar 14 Chwefror 2022 gan y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes, a amlinellodd y canlynol:

- Roedd yr adroddiad hwn yn cael ei lunio bob blwyddyn gan Archwilio Cymru ac yn ddatganiad o ganfyddiadau eu gwaith ar lefel Strategol i'r Cyngor.
- Roedd y canfyddiadau’n gadarnhaol ar y cyfan, hy, bod y Cyngor wedi bodloni dyletswyddau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru a oedd yn weddill ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, a hefyd yn cadarnhau barn ddiamod a theg ynghylch datganiadau ariannol y Cyngor, ac nid oedd unrhyw argymhellion rheoleiddio ffurfiol wedi'u gwneud i'r Cyngor dros y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad.
- Gwnaed Pum Cynnig ar Gwella yn gysylltiedig ag adolygiadau lleol penodol, yn ogystal â darnau cenedlaethol ychwanegol o waith, fel gwasanaethau Dewisol ac Adfywio canol trefi yng Nghymru.
- Ar ôl mabwysiadu'r rhain, byddai'r Cyngor yn monitro eu cynnydd drwy ei Fwrdd Mewnwelediad, yn ogystal ag adrodd amdanynt drwy'r Cynllun Cyflawni Blynyddol, adroddiadau hunanasesu ac adroddiadau chwe-misol interim.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- Wedi i'r Cynghorydd Dr Johnson ofyn a oedd y gwaith a gynlluniwyd yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn wedi'i gyflawni, ac a oedd diweddariad ynghylch gwaith arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn, dywedwyd y byddai swyddogion y Cyngor yn cwrdd ag Archwilio Cymru i adolygu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gwaith a oedd wedi'i gwblhau, a byddai hynny'n cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor drwy ei Raglen Waith. Byddai diweddariad yn erbyn yr astudiaethau lleol amrywiol a'r darnau gwaith cenedlaethol hefyd yn cael eu rhannu â'r Aelodau. Byddai AGC yn ogystal ag Estyn yn cyflawni gwaith arolygu ar wasanaethau'r Cyngor, hy, Gwasanaethau Plant.
- Dywedodd y Cadeirydd mai rhan allweddol o'r gwaith hwn oedd gweithio gyda'r Trydydd Sector, fel Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, a

gofynnodd i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu holi a fyddent yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor i roi'r newyddion diweddaraf.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau sydd ynddo, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – BOD cynnwys Crynodeb Archwilio Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 2021 yn cael ei nodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

Mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

991 PROSIECT SERO – DIWEDDARIAD, ADNODDAU, TYSTIOLAETH AC ADRODD (CYF) –

Cafodd y mater a gyfeiriwyd gan y Cabinet ar 28 Chwefror 2022 ei gyflwyno gan y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes er ystyriaeth y Pwyllgor. Amlinellai'r canfyddiadau yn yr adroddiad data carbon a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, cynigion ynghylch sut i ddefnyddio adnoddau ariannol i ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd ac ar gyfer adrodd ar gynnydd o ran cyflawni Prosiect Sero, sef ymateb y Cyngor i'r datganiad o argyfwng hinsawdd.

Dyma oedd y prif bwyntiau a godwyd:

- O ran ôl troed carbon y Cyngor, cynhaliodd Llywodraeth Cymru (LlC) ymarfer mesur ar draws cyrff y sector cyhoeddus gan ddefnyddio 2019/20 fel llinell sylfaen, oherwydd effaith bosibl y pandemig ar allyriadau yn 2020/21. Cyflwynwyd y data i LlC yn nhymor yr hydref y llynedd, ac roedd LlC ar hyn o bryd yn eu dehongli, a'r disgwyl oedd y byddai adroddiad drafft ar allyriadau carbon y sector cyhoeddus yn cael ei lunio'n fuan.
- Yn rhan o'r ymarfer hwn, bu'r Cyngor yn edrych ar allyriadau carbon mewn tri chwmpas gwahanol, gan edrych ar ddefnydd uniongyrchol ac anuniongyrchol o wasanaethau sy'n allyrru carbon. Yng nghwmpas un a chwmpas dau roedd hyn yn cynnwys y defnydd o ynni mewn adeiladau a lleoliadau sy'n eiddo i'r Cyngor ac sydd o dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor. Roed a wnelo cwmpas tri ag allyriadau carbon o fewn y gadwyn gyflenwi. Roedd 80% o allyriadau'r Cyngor wedi'u cynnwys o fewn cwmpas rhif tri, sef y nwyddau a'r gwasanaethau yr oedd yn eu prynu. Byddai'r wybodaeth hon o gymorth i lywio blaenoriaethau Prosiect Sero yn y dyfodol, ac yn helpu i ganolbwyntio nid yn unig ar ddefnydd uniongyrchol o ynni yng nghyfleusterau'r Cyngor, ond defnydd anuniongyrchol hefyd drwy ei gadwynau cyflenwi.
- Byddai gan y Cyngor ddiddordeb yng nghanfyddiadau gwybodaeth Cymru gyfan y byddai LlC yn ei darparu, a byddai'r Cyngor hefyd yn cyflwyno ymateb pellach i'r cais am ddata ym mis Mehefin eleni.
- O ran cyllid, roedd yr adroddiad yn nodi cyfres o wahanol drefniadau a ffynonellau cyllid posibl, fel y gronfa seilwaith gwyrdd a'r newid yn yr

hinsawdd, a oedd yn cynnwys £650,000. Dylid nodi'r gronfa honno fel cronfa gyfalaf, a'i neilltuo fel arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau seilwaith a gyllidir gan grant a fyddai o gymorth i greu newid sylfaenol tuag at gyrraedd targed sero'r Cyngor yn 2030. roedd Cronfa Prosiect Sero (£500k) hefyd ar gael i'w defnyddio i dalu costau refeniw, fel prynu cyngor arbenigol, dadansoddi a chyllido costau dichonadwyedd a diwydrwydd dyladwy, yr oedd eu hangen i drosoli cyllid grant (yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd Prosiect Sero a'r Pennaeth Cyllid). Roedd y Gronfa Garbon ar gyfer Cerbydau (£215k) hefyd yn werth ei nodi, i'w defnyddio i drydaneiddio fflyd y Cyngor o gerbydau.

- Roedd y Cynllun Busnes Tai yn nodi bron £75m dros y 30 mlynedd nesaf i ddatgarboneiddio stoc tai presennol y Cyngor, a'i stoc o dai yn y dyfodol.
- Roedd LIC hefyd wedi pennu cyllidebau dangosol ar gyfer cyfnod o dair blynedd, gyda chyllid ychwanegol o £20m ym mlynyddoedd dwy a thair wedi'i neilltuo i ddatgarboneiddio ledled Cymru, a'r Cyllid Cyfalaf Adnewyddu Asedau Ysgol ychwanegol a ddyfarnwyd yn 2021/22.
- O ran adrodd, cynigiwyd y dylid adrodd ar gynnydd drwy'r Cabinet a'r Pwyllgorau dair gwaith y flwyddyn ym mis Mehefin, Hydref a Chwefror. Ar ben hynny, nodwyd bod angen cynnwys adran newydd yn adroddiadau pwyllgor ar oblygiadau o ran y newid yn yr hinsawdd a natur i Aelodau ystyried a chanolbwyntio ar hynny. Dylid gweithredu hynny yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor eleni.
- Byddai angen gweithredu Cynllun Cyfathrebu yn rhan o Brosiect Sero, hy, y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, y defnydd o arwyddlun Prosiect Sero gan yr ysgolion a chyrff cyhoeddus eraill, yn ogystal â brandio a gwybodaeth am asedau ffisegol yn gysylltiedig â'r prosiect, hy o fewn parciau gwledig.
- Amlygwyd meysydd cynnydd allweddol ar gyfer Prosiect Sero, hy, yr ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol, a'r modd y gellid datblygu canllawiau cynllunio atodol, y Cynllun Seilwaith Gwyrdd a oedd i fod yn destun ymgynghoriad yn nhymor yr haf 2022, byddai'r Cynllun Busnes Rheoli Gwastraff 10 mlynedd yn mynd i'r Cabinet, yn ogystal â datblygu Cynllun Ynni'r Ardal Leol, cytundeb Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar strategaeth ynni, a chynigion amlinellol yn Aberddawan, hy, am ddulliau amgen o gynhyrchu ynni neu seilwaith digidol.
- Roedd y Cyngor hefyd yn ddiweddar wedi trefnu i ymgynghorwyr edrych ar allyriadau carbon ar draws Bro Morgannwg fel sir, er mwyn deall maint a graddfa'r her i gyrraedd nod 2050 ar gyfer Cymru Sero Net.

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Carroll at yr ansicrwydd a geir yn fyd-eang ar hyn o bryd ynghylch cyflenwadau a phrisiau ynni (oherwydd y rhyfel yn Wcrain), a'r angen i'r Deyrnas Unedig a holl wledydd Gorllewin Ewrop wneud mwy i leihau'r ddibyniaeth ar olew a nwy (ee, o Rwsia). Byddai hyn yn broses gymhleth a heriol a fyddai'n cynnwys cadwynau cyflenwi, cost technolegau 'gwyrdd' ac effaith prisiau ar adnoddau cysylltiedig, hy, metelau mewn technolegau batri/trydan. Gofynnodd a oedd unrhyw asesiad neu ddadansoddiad o effaith wedi'i gynnal gan y Cyngor neu eraill ynghylch

effaith bosibl y rhyfel yn Wcrain, a ffactorau eraill, ar y gallu i sicrhau sero net. Eglurwyd bod y problemau a'r rhyfel cyfredol wedi'u trafod yng nghyfarfod yr Uwch Dîm Arwain (UDA) ar adsefydlu ffoaduriaid, ar effeithiau posibl ar wasanaethau'r Cyngor a chostau byw preswylwyr. Byddai cyfarfod dilynol yn cael ei gynnal â Swyddogion Cyngor ar y materion hyn yn y dyfodol agos, a byddai effaith rhaglen ddatgarboneiddio'r Cyngor hefyd dan ystyriaeth, gyda'r posibilrwydd o lunio adroddiad ar hynny ymhen amser.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Dr Johnson at y ganran fawr o allyriadau carbon yng nghadwyn gyflenwi'r Cyngor, a phwysigrwydd y Cyngor fel sefydliad 'angori', a'i allu i ddylanwadu ar arferion wrth gaffael yn lleol a hefyd yn y gadwyn gyflenwi ehangach, yn ogystal â sefydlu arfer gorau. Gallai hyn gymryd amser, felly roedd hi'n bosibl na fyddai'n bosibl pennu llinell sylfaen ar gyfer data Prosiect Sero yn y dyfodol agos. Yr oedd hefyd yn chwilio am sicrwydd y byddai pob rhan o'r Cyngor yn cadw at brosesau a chynlluniau Prosiect Sero.
- Adleisiodd y Cynghorydd Sivagnanam y sylwadau ynghylch allyriadau cadwyn gyflenwi'r Cyngor, a gofynnodd beth oedd y Cyngor yn ei wneud yn wahanol yn nhermau caffael gwasanaethau eraill, ac er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hynny a'r darparwyr hynny wedi ymrwymo i'r prosiect hwn.
- Mewn ymateb i'r ymholiadau uchod ynghylch allyriadau'r gadwyn gyflenwi (cwmpas 3), dywedodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes fod nifer o gamau'n cael eu cyflawni i gyflymu'r gwaith hwn yn sylweddol. Roedd y data a ddychwelwyd yn ei gwneud yn bosibl i'r Cyngor nodi'r gwahanol rannau o fusnes y Cyngor a oedd yn caffael gwahanol gyflenwadau a gwasanaethau, a chael syniad o allyriadau yn erbyn yr holl rannau hynny. Roedd y Bwrdd Prosiect ar gyfer Prosiect Sero wedi gofyn i'r Uwch Swyddogion Cyfrifol a oedd i fod i gyflawni'r ymrwymiadau hyn o fewn y prosiect, i gynnal her caffael dros y tri mis nesaf, ac i ystyried sut i ddatgarboneiddio'r nwyddau a'r gwasanaethau hyn ac i fynd ati'n weithredol i ganfod opsiynau eraill. Hefyd, ystyried helpu darparwyr gwasanaeth er mwyn helpu i leihau eu hallyriadau carbon, hy rhannu cerbydau trydan y Cyngor â gofalwyr cartref a rhoi ystyriaeth bellach i ddatgarboneiddio ysgolion.
- Dywedodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio wrth y Pwyllgor, er bod hyn yn faes cymhleth, fod Prosiect Sero a'r holl waith cysylltiedig yn astudiaeth achos a ddangosai os oeddech yn teimlo'n angerddol am rywbeth, y gallech newid dull y Cyngor o weithredu, ee creu ysgol ddi-garbon, Ysgol Gynradd Trwyn y De yn y Rhws. Yn debyg i'r broses yn gyffredinol, roedd hyn wedi golygu dysgu ac addasu technolegau a dulliau gwyrdd er mwyn caniatáu ar gyfer plant yn mynd i mewn ac allan o adeiladau, ac ati, a'r her fawr nesaf oedd ôl-osod technolegau mewn ysgolion hŷn i'w troi'n garbon sero net. Canmolodd y gwaith a wnaed gan swyddogion y Cyngor wrth symud Prosiect Sero yn ei flaen. O ran costau, roedd y rhain eisoes wedi bod yn cynyddu, hyd yn oed cyn Wcrain ac roedd yn dal yn rhaid i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau ac ati, a bod yn uchelgeisiol er gwaethaf y cynnydd, ac roedd potensial am gyllid pellach gan LIC ar gyfer agweddau fel ôl-osod.
- Teimlai'r Cadeirydd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar gynhyrchu a chyrchu bwyd yn lleol ym Mro Morgannwg, er mwyn lleihau allyriadau carbon yn sgil

mewnforio bwyd o'r tu allan, ar inswleiddio adeiladau cyhoeddus a mathau eraill o adeiladau i leihau allyriadau carbon ac er mwyn helpu i leihau costau / y defnydd o ynni, ac y dylai'r Cyngor lobïo Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch arferion a pholisïau caffael, er mwyn gweithio tuag at atebion mwy carbon niwtral. Esboniwyd bod Cynllun Her Newid yr Hinsawdd eisoes yn cynnwys ymrwymiadau i gyrchu bwyd wedi'i gynhyrchu'n lleol a lleihau milltiroedd bwyd. Byddai'r pwynt ynghylch inswleiddio yn cael ei gyfleu wrth y Gwasanaethau Eiddo, ac o ran lobïo Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, roedd hyn yn bendant yn bwysig ond roedd hi'n hanfodol gwneud penderfyniadau a chymryd camau'n lleol yn gysylltiedig â chaffael.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau sydd ynddo, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – BOD y Cabinet yn cael gwybod am y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu ar Berfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ar Brosiect Sero – Diweddariad, Adnoddau, Tystiolaeth ac Adrodd, sef:

- Mwy o bwyslais ar gynhyrchu a chyrchu bwyd yn lleol ym Mro Morgannwg er mwyn lleihau allyriadau carbon o fewnforio bwyd yn allanol.
- Mwy o ffocws ar inswleiddio'r cyhoedd a mathau eraill o adeiladau er mwyn lleihau allyriadau carbon a helpu i leihau'r defnydd o danwydd / costau.
- Dylai'r Cyngor lobïo Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch arferion a pholisïau caffael, er mwyn gweithio tuag at atebion mwy carbon niwtral.
- Bod y Cyngor yn ceisio dylanwadu ar arferion o ran caffael yn lleol a'r gadwyn gyflenwi ehangach, yn ogystal â gosod arfer gorau a bod y Cyngor yn sicrhau bod ei bolisïau a'i brosesau o amgylch Prosiect Sero yn ddigon cadarn, gwydn ac effeithiol.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Er mwyn i'r Cabinet ystyried sylwadau a safbwyntiau'r Pwyllgor Craffu gan gyfeirio at fwrw ymlaen â Phrosiect Sero.

992 MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1AF EBRILL 2021 I 31AIN IONAWR 2022 (CYF) -

Cyflwynwyd mater a gyfeiriwyd o'r Cabinet ar 28 Chwefror 2022 gan y Pennaeth Cyllid/Swyddog A151 Dros Dro. Dyma oedd y prif bwyntiau:

- O ran y cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) drwy'r Grant Caledi Brys i Awdurdodau Lleol, roedd y Cyngor wedi hawlio bron £11m er mwyn helpu i dalu costau ychwanegol a ysgwyddwyd rhwng mis Ebrill 2021 a mis Ionawr 2022.
- Roedd y cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol drwy'r Grant Caledi Brys i Awdurdodau Lleol wedi dechrau lleihau'n raddol, gan gynnwys y cynnydd ar gyfer gofal preswyl, gwelyau gwag mewn cartrefi gofal a llety â chymorth.

- Roedd hi'n anodd rhagweld beth fyddai'r alldro eleni, gan fod LIC yn darparu grantiau ychwanegol ac ati. Gan fod grantiau o'r fath yn cael eu dyfarnu, roedd nifer o drosglwyddiadau i gronfeydd ar wahân i'r CRT yn creu cyfanswm o £3.848m yn ogystal â'r trosglwyddiad o £4m i Gronfa Cyngor a gymeradwywyd yn rhan o'r Cynigion Refeniw Cychwynnol.
- Roedd yr Amgylchedd a Thai yn dal i adrodd gorwariant o £1.5m. Fodd bynnag, yn lle bod hyn yn cael ei dalu o'r arian wedi'i dynnu i lawr o'r gronfa wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn, roedd LIC wedi darparu grant cymorth refeniw ychwanegol eleni o £2 filiwn, a byddai'r arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio i dalu am y gorwariant. Hefyd, roedd y LIC wedi dyfarnu dros £200,000 drwy grant ychwanegol yn ddiweddar i'r Cyngor mewn cyfraniadau tuag at wastraff.
- Roedd cyllid ychwanegol o £1.2 miliwn hefyd wedi'i ddarparu ar gyfer y gostyngiad yn yr incwm a dderbyniwyd o'r Dreth Gyngor oherwydd cyfraddau casglu is yn sgil COVID-19. Gan fod LIC wedi dweud na fyddai unrhyw gyllid pellach yn cael ei ddarparu yn 2022/23 ar gyfer Caledi neu Golli Incwm, cynigiwyd y dylid trosglwyddo'r swm hwn i gronfa wrth gefn Ymateb i Covid er mwyn lliniaru'r costau'n gysylltiedig â materion Covid parhaus y Cyngor.
- Yn ogystal â'r amrywiant ffafriol o £4m a adroddwyd yn flaenorol, rhagwelwyd y ceid amrywiant ffafriol pellach o £200k yn gysylltiedig â Chynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2021/22.
- O ran targed effeithlonrwydd y Cyngor o £500k ar gyfer y flwyddyn, ni fyddai'r targed hwnnw'n cael ei gyrraedd oherwydd rhagwelwyd y byddai diffyg o £170k yn erbyn y targed.

  Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau sydd ynddo, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – NODI’R sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2021/22 yr Awdurdod.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

993 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1AF EBRILL 2021 I 31AIN IONAWR 2022 (CYF) –

Cyflwynwyd mater a gyfeiriwyd o'r Cabinet ar 28 Chwefror 2022 gan y Pennaeth Cyllid/Swyddog A151 Dros Dro. Dyma oedd y prif bwyntiau:

- Roedd y Cyngor wedi derbyn cyllid Grant Cyfalaf Cyffredinol ychwanegol o £2.7m. Roedd y cyllid hwn heb ei neilltuo er mwyn rhoi cymaint o hyblygrwydd ag a oedd yn bosibl i Gynghorau.
- Defnyddiwyd Pwerau Brys i ychwanegu £500k at Gynllun Gwelliannau Priffyrdd y Gwasanaethau Cymdogaeth yn Rhaglen Gyfalaf 2021/22, gan fod y cynllun hwnnw wedi'i nodi'n agwedd a oedd dan bwysau, felly bydd modd cyflawni gwaith cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

- Roedd rhai cynlluniau heb allu dechrau yn 2021/22 neu roeddent wedi'u hoedi gyda rhywfaint o lithriant a gwariant i'w gario drosodd; fodd bynnag, byddai rhai cynlluniau bellach yn dechrau ym mis Mawrth 2022 ac yn cael eu cwblhau yn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Goblygiadau'r uchod oedd na fyddai'n ofynnol codi benthyciadau digymorth i ariannu gwariant cyfalaf y flwyddyn ariannol hon, a byddai lefel y cyfraniadau refeniw i gyfalaf yn gostwng i £7.526m. Roedd hyn yn ei dro yn golygu na fyddai arian yn cael ei dynnu i lawr o gronfa'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar ddiwedd 2021/22, ac roedd y sefyllfa honno wedi cael ei hystyried wrth gynhyrchu'r Cynllun Busnes Tai diwygiedig a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2022.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau sydd ynddo, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – NODI'R cynnydd a wnaed ar Raglen Gyfalaf 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

Mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

994 CYNGOR BRO MORGANNWG - FFIOEDD A THALIADAU ARFAETHEDIG AR GYFER 2022/23 (CYF) -

Cyflwynwyd mater a gyfeiriwyd o'r Cabinet ar 28 Chwefror 2022 gan y Pennaeth Cyllid/Swyddog A151 Dros Dro. Dyma oedd y prif bwyntiau:

- Roedd y Cabinet yn flaenorol wedi cymeradwyo'r Strategaeth Cyfleoedd Masnachol i Gynhyrchu Ynni. Wrth i rai mathau o gyllid cyhoeddus droi'n gynyddol brin, ac wrth i'r craffu ddwysau, nodai'r Strategaeth fod angen i'r Cyngor roi mwy o bwyslais ar gynhyrchu ei incwm ei hun, ac ar ddatblygu a chyflwyno cynnyrch a gwasanaethau i'r cyhoedd. O ganlyniad i hyn, roedd yr adroddiad yn nodi'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer ystod o wasanaethau ar gyfer 2022/23, ac roedd unrhyw newidiadau o bwys i'r rhain wedi'u nodi yn yr adroddiad.
- Adroddwyd mai 5.5% oedd y Fynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn 2022, sef cynnydd o gymharu â 5.4% ym mis Rhagfyr 2021. Fodd bynnag, ar ôl ystyried mai'r prif ffactor a ysgogai'r costau'n gysylltiedig â ffioedd a thaliadau, argymhellwyd cymhwyso cynnydd o 3% a'i dalgrynnu i'r 10c agosaf, onid oedd cyfeiriad yn yr adroddiad hwn, (gan adlewyrchu dyfarniadau cyflog amcangyfrifedig y staff ar gyfer 2022/23, ac er bod y gyfradd hon yn is na'r CPI, mae'n adlewyrchu peth o'r pwysau chwyddiant y mae gwasanaethau'n eu profi)

Ar ôl cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y sylwadau a'r cwestiynau canlynol gan y Pwyllgor:

- Holodd y Cynghorydd Dr Johnson ynghylch cyflwyno trwydded croesi dros dro ar gyfer croesfannau priffyrdd a bod rhai preswylwyr wedi gwneud

gwaith o'r fath y llynedd na fyddent o bosib wedi gorfod ei wneud gan fod y polisi wedi newid bellach. Ar ôl cael caniatâd i siarad, eglurodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth fod yn rhaid i gwrb isel fod yn bresennol ar y safle, ac i'r droedffordd ymddangos fel pe bai mewn cyflwr cadarn, er mwyn cael cytundeb trwydded Croesfan Dros Dro. Byddai hyn yn gofnod bod y Cyngor yn ymwybodol o'r groesfan a'i chyflwr dros dro, ac ni fyddai felly'n atal unrhyw werthiant neu bryniant eiddo o ganlyniad i ddiwydrwydd dyladwy. Yn ogystal â hyn, ceisiodd y Cyngor ganfod y dull mwyaf pragmataidd o ddatrys hyn, ac nid oedd wedi bod yn ymwybodol o unrhyw waith o bwys ar groesfannau a oedd wedi'i gyflawni cyn hynny; os oedd gwaith o'r fath wedi'i gyflawni, yr oedd yn gobeithio bod yr holl waith hwnnw'n angenrheidiol.

- Holodd y Cynghorydd hefyd beth oedd y graddfeydd amser ar gyfer gofodau masnachu, arwyddion, cadeiriau ac ati. Cyfeiriodd hefyd ar nifer yr atodiadau, a gofynnodd a oedd angen cynnwys clybiau nad oeddent yn talu ffioedd mwyach ynddynt. O ran yr amserlenni ar gyfer yr adolygiad, byddai'n cymryd blwyddyn cyn i'r rhain gael eu dychwelyd i'r Cabinet.
- Holodd y Cynghorydd John a oedd Cynghrair Bro Morgannwg yn dal i gasglu'r ffioedd ar gyfer timau pêl droed lleol. Cyfeiriodd at y ffaith bod ffioedd yn gostwng oherwydd gostyngiad yn nifer y clybiau pêl droed lleol, ac yn nifer y clybiau criced, a'r costau yr oedd yn rhaid iddynt eu hysgwyddo i dalu am ffioedd a chae chwarae, yn ogystal â'r gostyngiad cyson yn nifer y caeau hynny oherwydd gwaith adeiladu ac ati. Roedd angen i'r Cyngor edrych ar hyn yn rhan o'i nod o hyrwyddo arferion byw iach a llesiant. Ategwyd hyn hefyd gan y Cadeirydd.
- Gofynnodd y Cynghorydd Carroll am y taliadau a oedd yn gysylltiedig â'r cytundeb trwydded Croesfan Dros Dro, ar ôl cael cadarnhad nad oedd y taliadau hynny ond yn berthnasol i gostau arolygu a chofnodi.
- Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth i'r Pwyllgor fod y cynnydd mewn costau ar gyfer ffioedd a thaliadau wedi'u cadw mor isel ag a oedd yn bosibl, a bod y gost am docynnau tymor ar gyfer cyrchfannau arfordirol y Fro wedi gostwng, a thaliadau cynyddrannol wedi'u cyflwyno mewn rhai meysydd parcio, drwy folard a oedd yn codi a system awtomatig i adnabod rhifau cofrestru.
- Pwysleisiodd y Cadeirydd fod angen i'r Cyngor symleiddio ffioedd a thaliadau a dadansoddi sensitifrwydd prisiau er mwyn asesu effaith cynyddu / gostwng taliadau, ac ystyried costio amsugno, a gellid adrodd yn ôl ar hyn wrth y Pwyllgor Craffu.
- Ychwanegodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio fod y tocynnau tymor ar gyfer meysydd parcio arfordirol a gwledig y Fro yn cynnig gerth da am arian (tua phunt yr wythnos i fynd i'r lleoliadau hyn). Er y byddai'n dda symleiddio ffioedd a thaliadau am wasanaethau yn y Fro gymaint â phosibl, ni ddylai hyn arwain at greu 'un dull i bawb' a allai gosbi rhai pobl mewn modd annheg. Pwysleisiodd y ddau Aelod Cabinet a oedd yn bresennol fod y rhan fwyaf o'r ffioedd a thaliadau yn tarddu o ymgais gan y Cyngor i fod yn 'niwtral o ran costau' neu heb fod yn talu'r costau'n llawn, yn hytrach na'u bod yn gwneud unrhyw elw. Ar ôl gwario ar wasanaethau statudol fel ysgolion a gofal cymdeithasol, roedd swm yr arian a oedd ar gael i gyllido yn sylweddol is. Gallai Craffu edrych ar y mathau hyn o faterion ac ystyriaethau'n gysylltiedig â'r strwythur taliadau a ffioedd

ac ati yn y dyfodol, hy, drwy grŵp gorchwyl a gorffen, a gellid ystyried hyn hefyd yn un o gyfarfodydd y Cabinet yn dilyn y pandemig.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r holl faterion a'r goblygiadau sydd ynddo, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – BOD y cynigion ar gyfer diwygio ffioedd a thaliadau a newidiadau cysylltiedig i bolisïau a phrosesau fel y'u nodir yn yr adroddiad a'r atodiadau cysylltiedig yn cael eu nodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

Mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.